I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# LlC23-15

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Cynllun Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) (Cymru) 2023

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun Trosglwyddo)*

Mae Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("CLlD") wedi ei sefydlu fel corff corfforedig o dan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("Deddf 2020"). Mae adran 13(1) o Ddeddf 2020 yn darparu mai amcan cyffredinol CLlD, wrth arfer ei swyddogaethau, yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Hyd yma, mae Cynghorau Iechyd Cymuned ("CICau") wedi cynrychioli'r buddiannau yn y gwasanaeth iechyd sydd gan y cyhoedd yn eu hardaloedd ac mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned ("y Bwrdd CICau") wedi ymgymryd â nifer o swyddogaethau megis cynghori'r CICau o ran cyflawni eu swyddogaethau a chynorthwyo CICau i gyflawni eu swyddogaethau. Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yw'r cyflogwr a'r sefydliad sy'n lletya ar gyfer y CICau a'r Bwrdd CICau, ac mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i lesoedd ar ran y CICau a'r Bwrdd CICau i ddarparu swyddfeydd a llety arall i'r CICau a'r Bwrdd CICau i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r CICau wedi eu dileu ar 1 Ebrill 2023 drwy gychwyn adran 23(1) o Ddeddf 2020, ac mae'r Bwrdd CICau hefyd wedi ei

ddileu ar 1 Ebrill 2023 drwy ddirymu Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010.

Mae'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch trosglwyddo staff, eiddo, hawliau ac atebolrwyddau, mewn cysylltiad â dileu CICau.

Mae erthygl 3 o'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff o Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys i CLlD.

Mae erthyglau 4 a 5 o'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo eiddo oddi wrth Weinidogion Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn y drefn honno i CLlD, ynghyd â'r hawliau a'r atebolrwyddau sy'n ymwneud â'r eiddo. Nid yw Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn dal unrhyw eiddo sy'n dir, yn adeiladau neu'n lesoedd ar ran y CICau a'r Bwrdd CICau ond mae'n dal eiddo arall megis systemau ffôn.

Mae erthygl 6 o'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo hawliau ac atebolrwyddau mewn cysylltiad â swyddogaethau'r CICau, swyddogaethau'r Bwrdd CICau a swyddogaethau CLlD oddi wrth Weinidogion Cymru i CLlD, ac eithrio hawliau ac atebolrwyddau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r cytundeb yr ymrwymodd Gweinidogion Cymru iddo ac a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen.

Mae erthygl 7 o'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo hawliau ac atebolrwyddau mewn cysylltiad â swyddogaethau'r CICau a swyddogaethau'r Bwrdd CICau o Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys i CLlD.

Mae erthyglau 8 a 9 o'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth oddi wrth Weinidogion Cymru ac o Fwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn y drefn honno i CLlD, ac eithrio data, cofnodion a gwybodaeth mewn perthynas â'r cytundeb yr ymrwymodd Gweinidogion Cymru iddo ac a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen.

Mae erthygl 10 o'r Cynllun Trosglwyddo hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer parhad pethau a wneir gan Weinidogion Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys, neu mewn perthynas â hwy, ac eithrio unrhyw beth sydd wedi cael ei wneud neu sydd wrthi'n cael ei wneud gan Weinidogion Cymru, neu mewn perthynas â hwy, o ran y cytundeb yr ymrwymodd Gweinidogion Cymru iddo ac a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen, neu mewn perthynas â'r cytundeb hwnnw.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Cynllun Trosglwyddo hwn. O ganlyniad,

ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Cynllun Trosglwyddo hwn.

I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# LlC23-15

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Cynllun Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Mawrth 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *31 Mawrth 2023* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cynllun Trosglwyddo a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Cynllun Trosglwyddo hwn yw Cynllun Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwyddau) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Cynllun Trosglwyddo hwn i rym ar 1 Ebrill 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Cynllun Trosglwyddo hwn—

(**1**) 2020 dsc 1.

ystyr "BILlA Powys" ("*Powys TLHB*") yw Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys a sefydlwyd gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003(**1**) ac sy'n gweithredu fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys;

ystyr "Bwrdd CICau" ("*CHC Board*") yw'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru a sefydlwyd o dan reoliad 23 o Reoliadau 2004 ac a oedd yn parhau mewn bodolaeth o dan reoliad 32(1) o Reoliadau 2010;

ystyr "CICau" ("*CHCs*") yw'r Cynghorau Iechyd Cymuned ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, a oedd yn parhau mewn bodolaeth neu a sefydlwyd o dan adran 182 o Ddeddf 2006;

ystyr "CLlD" ("*CVB*") yw Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru a sefydlwyd o dan adran 12(1) o Ddeddf 2020;

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**);

ystyr "Deddf 2020" ("*the 2020 Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Ebrill 2023;

ystyr "Rheoliadau 2004" ("*the 2004 Regulations*") yw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004(**3**);

ystyr "Rheoliadau 2010" ("*the 2010 Regulations*") yw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010(**4**);

ystyr "swyddogaethau'r Bwrdd CICau" ("*CHC Board's functions*") yw swyddogaethau'r Bwrdd CICau o dan reoliad 32(2) o Reoliadau 2010;

ystyr "swyddogaethau'r CICau" ("*CHCs' functions*") yw swyddogaethau'r CICau o dan baragraff 1 o Atodlen 10 i Ddeddf 2006 a Rhan IV o Reoliadau 2010;

ystyr "swyddogaethau CLlD" ("*CVB's functions*") yw swyddogaethau CLlD o dan Ran 4 o Ddeddf 2020 ac Atodlen 1 iddi.

---

(**1**) O.S. 2003/148 (Cy. 18), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/1790 (Cy. 186) ac O.S. 2009/778 (Cy. 66).

(**2**) 2006 (p. 42).

(**3**) O.S. 2004/905 (Cy. 89), a ddirymwyd gan O.S. 2010/288 (Cy. 37) yn ddarostyngedig i arbedion a bennir yn rheoliad 42 o O.S. 2010/288 (Cy. 37).

(**4**) O.S. 2010/288 (Cy. 37), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/235, O.S. 2013/898 (Cy. 102), O.S. 2015/137, O.S. 2015/509 (Cy. 43), O.S. 2016/481, O.S. 2019/349 (Cy. 83), O.S. 2020/493 (Cy. 116) ac O.S. 2020/1073 (Cy. 241).

**Trosglwyddo staff i CLlD**

**3.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw berson—

(a) sydd wedi ei gyflogi gan BILlA Powys yn union cyn y dyddiad trosglwyddo mewn cysylltiad â swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau; a

(b) sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan BILlA Powys cyn y dyddiad trosglwyddo ei fod i'w drosglwyddo i CLlD.

(2) Mae contract cyflogaeth unrhyw berson y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i'w drosglwyddo i CLlD.

(3) O ran contract cyflogaeth person y mae ei gyflogaeth wedi ei throsglwyddo i CLlD o dan baragraff (2)—

(a) nid yw'r trosglwyddiad yn ei derfynu; a

(b) mae'n cael effaith o'r dyddiad trosglwyddo fel pe bai wedi ei wneud yn wreiddiol rhwng y person hwnnw a CLlD.

(4) Heb ragfarnu paragraff (3)—

(a) mae holl hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau BILlA Powys o dan gontract cyflogaeth unrhyw berson y trosglwyddwyd ei gyflogaeth i CLlD ar y dyddiad trosglwyddo o dan baragraff (2), neu mewn cysylltiad â'r contract hwnnw, i'w trosglwyddo i CLlD; a

(b) bernir bod unrhyw weithred neu anweithred cyn y dyddiad trosglwyddo gan BILlA Powys, neu mewn perthynas ag ef, mewn cysylltiad â'r person hwnnw neu gontract cyflogaeth y person hwnnw, wedi bod yn weithred neu'n anweithred gan CLlD, neu mewn perthynas ag ef.

(5) Nid yw paragraffau (2) i (4) yn cael effaith i drosglwyddo contract cyflogaeth person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo, neu unrhyw hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau o dan y contract hwnnw, neu mewn cysylltiad ag ef, os yw'r person hwnnw, cyn y dyddiad trosglwyddo, yn hysbysu BILlA Powys ei fod yn gwrthwynebu dod yn gyflogedig gan CLlD.

(6) Pan fo person y mae paragraff (1) yn gymwys iddo wedi gwrthwynebu trosglwyddo contract cyflogaeth y person hwnnw i CLlD fel y'i disgrifir ym mharagraff (5), mae'r trosglwyddiad yn gweithredu er mwyn terfynu contract cyflogaeth y person hwnnw â BILlA Powys.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraff (8), nid yw person y mae ei gontract cyflogaeth yn cael ei derfynu yn unol â pharagraff (6) i'w drin, at unrhyw ddiben, fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ei gyflogwr.

(8) Pan fo'r trosglwyddiad yn golygu, neu pan fyddai'n golygu, newid sylweddol yn yr amodau gwaith gan arwain at niwed sylweddol i berson y mae ei gyflogaeth yn cael ei throsglwyddo neu y byddai ei gyflogaeth wedi cael ei throsglwyddo o dan baragraff (2), caiff y person hwnnw drin y contract cyflogaeth fel pe bai wedi cael ei derfynu, ac mae'r person hwnnw i'w drin at unrhyw ddiben fel pe bai wedi cael ei ddiswyddo gan ei gyflogwr.

(9) Nid yw unrhyw iawndal i fod yn daladwy gan gyflogwr o ganlyniad i ddiswyddo sy'n dod o fewn paragraff (8) mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant gan y cyflogwr i dalu cyflog i berson mewn cysylltiad â chyfnod rhybudd y mae'r person wedi methu â'i weithio.

(10) Nid yw paragraffau (2), (3) a (5) i (8) yn rhagfarnu unrhyw hawl sydd gan berson ac sy'n codi ar wahân i'r erthygl hon i derfynu contract cyflogaeth y person hwnnw heb rybudd wrth dderbyn tor contract ymwrthodol gan y cyflogwr.

(11) Mae cofnodion BILlA Powys sy'n ymwneud â chyflogaeth y personau hynny y mae paragraff (1) yn gymwys iddynt ac y mae eu contractau cyflogaeth i'w trosglwyddo i CLlD yn unol â'r erthygl hon i'w trosglwyddo i CLlD ar y dyddiad trosglwyddo.

**Trosglwyddo eiddo oddi wrth Weinidogion Cymru**

**4.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw eiddo a ddelir gan Weinidogion Cymru yn union cyn y dyddiad trosglwyddo—

(a) a nodir yn Rhan 1 o'r Atodlen;

(b) sy'n ymwneud ag unrhyw gytundebau yr ymrwymodd Gweinidogion Cymru iddynt ac a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen;

(c) a ddefnyddir neu a ddelir gan Weinidogion Cymru—

(i) ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau neu swyddogaethau CLlD; neu

(ii) mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau neu swyddogaethau CLlD.

(2) Mae unrhyw eiddo y mae paragraff (1) yn gymwys iddo i'w drosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i CLlD.

(3) Mae unrhyw hawliau neu atebolrwyddau sydd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw eiddo y mae paragraff (1) yn gymwys iddo i'w trosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i CLlD.

(4) Mae unrhyw eiddo y mae paragraff (1) yn gymwys iddo sy'n dir neu'n adeiladau yn cael ei

drosglwyddo yn ddarostyngedig i'r canlynol, a chyda budd y canlynol—

(a) unrhyw lesoedd, tenantiaethau a thrwyddedau presennol ac unrhyw hawliau sydd gan feddianwyr a'u holynwyr;

(b) unrhyw fuddiant arall yn yr eiddo, ac unrhyw fater sy'n effeithio arno.

(5) Ym mharagraff (4), mae trosglwyddo "eiddo" yn cynnwys trosglwyddo cynnwys yr eiddo, gan gynnwys unrhyw eitem neu eiddo o ba ddisgrifiad bynnag—

(a) sy'n eiddo i Weinidogion Cymru yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, a

(b) sy'n bresennol yn yr eiddo neu ar yr eiddo ar y dyddiad trosglwyddo,

gan gynnwys unrhyw gerbyd neu eiddo symudol sydd fel arfer yn cael ei gadw ar y tir hwnnw neu yn yr adeiladau hynny pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

**Trosglwyddo eiddo o BILlA Powys**

**5.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw eiddo a ddelir gan BILlA Powys yn union cyn y dyddiad trosglwyddo a ddefnyddir neu a ddelir gan BILlA Powys—

(a) ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau; neu

(b) mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau.

(2) Mae unrhyw eiddo y mae paragraff (1) yn gymwys iddo i'w drosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i CLlD.

(3) Mae unrhyw hawliau neu atebolrwyddau sydd gan BILlA Powys mewn perthynas ag unrhyw eiddo y mae paragraff (1) yn gymwys iddo i'w trosglwyddo, ar y dyddiad trosglwyddo, i CLlB.

**Trosglwyddo hawliau ac atebolrwyddau sydd gan Weinidogion Cymru**

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae unrhyw hawliau ac atebolrwyddau sydd gan Weinidogion Cymru sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sy'n ymwneud â Gweinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau neu swyddogaethau CLlD, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, i'w trosglwyddo ar y dyddiad trosglwyddo i CLlD.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae unrhyw atebolrwyddau sydd gan Weinidogion Cymru sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sy'n ymwneud â Gweinidogion Cymru wrth arfer

swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau neu swyddogaethau CLlD, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, yn orfodadwy yn erbyn CLlD.

(3) Nid yw'r hawliau a'r atebolrwyddau sydd gan Weinidogion Cymru, sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, mewn perthynas â'r cytundeb yr ymrwymodd Gweinidogion Cymru iddo yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen, i'w trosglwyddo ar y dyddiad trosglwyddo i CLlD.

**Trosglwyddo hawliau ac atebolrwyddau sydd gan BILlA Powys**

**7.**—(1) Mae unrhyw hawliau ac atebolrwyddau sydd gan BILlA Powys sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sy'n ymwneud â BILlA Powys wrth arfer swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, i'w trosglwyddo ar y dyddiad trosglwyddo i CLlD.

(2) Mae unrhyw atebolrwyddau sydd gan BILlA Powys sy'n bodoli yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac sy'n ymwneud â BILlA Powys wrth arfer swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, yn orfodadwy yn erbyn CLlD.

**Trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth oddi wrth Weinidogion Cymru**

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae unrhyw eiddo, hawliau ac atebolrwyddau sydd gan Weinidogion Cymru, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, mewn perthynas â data, cofnodion a gwybodaeth sy'n ymwneud â Gweinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau neu swyddogaethau CLlD, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, i'w trosglwyddo ar y dyddiad trosglwyddo i CLlD.

(2) Mae trosglwyddo unrhyw wybodaeth, data a chofnodion y mae'r erthygl hon yn gymwys iddynt yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau trydydd parti sy'n bodoli mewn perthynas â'r wybodaeth honno neu'r data hynny a'r cofnodion hynny.

(3) Nid yw unrhyw eiddo, hawliau ac atebolrwyddau sydd gan Weinidogion Cymru, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, mewn perthynas â data, cofnodion a gwybodaeth yn ymwneud â'r cytundeb yr ymrwymodd Gweinidogion Cymru iddo yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen, i'w trosglwyddo ar y dyddiad trosglwyddo i CLlD.

**Trosglwyddo data, cofnodion a gwybodaeth o BILlA Powys**

**9.**—(1) Mae unrhyw eiddo, hawliau ac atebolrwyddau sydd gan BILlA Powys, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, mewn perthynas â data, cofnodion a gwybodaeth sy'n ymwneud â BILlA Powys wrth arfer swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny, i'w trosglwyddo ar y dyddiad trosglwyddo i CLlD.

(2) Mae trosglwyddo unrhyw wybodaeth, data a chofnodion y mae'r erthygl hon yn gymwys iddynt yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau trydydd parti sy'n bodoli mewn perthynas â'r wybodaeth honno neu'r data hynny a'r cofnodion hynny.

**Darpariaeth ar gyfer parhad wrth arfer swyddogaethau**

**10.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae unrhyw beth sydd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, wedi cael ei wneud neu wrthi'n cael ei wneud gan y canlynol neu mewn perthynas â'r canlynol—

(a) BILlA Powys wrth arfer swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny,

(b) Gweinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau'r CICau neu swyddogaethau'r Bwrdd CICau neu swyddogaethau CLlD, neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny,

i gael effaith, ar neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo, fel pe bai'n cael ei wneud gan CLlD neu mewn perthynas ag ef.

(2) Mae unrhyw beth sydd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, wedi cael ei wneud neu wrthi'n cael ei wneud gan Weinidogion Cymru, neu mewn perthynas â hwy, o ran y cytundeb yr ymrwymodd Gweinidogion Cymru iddo yn union cyn y dyddiad trosglwyddo ac a nodir yn Rhan 3 o'r Atodlen, ar neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo, i barhau i gael effaith fel y'i gwnaed gan Weinidogion Cymru neu mewn perthynas â hwy.

(3) I'r graddau y mae'n ofynnol er mwyn rhoi effaith i baragraff (1), mae cyfeiriad mewn unrhyw ddogfen at BILlA Powys neu Weinidogion Cymru i'w ddehongli ar neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo fel cyfeiriad at CLlD.

(4) Yn ddarostyngedig i erthygl 3(8), nid yw unrhyw hawl i derfynu neu i amrywio contract, trefniant neu offeryn i weithredu neu i ddod yn arferadwy, ac nid yw unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw gontract, trefniant neu offeryn i weithredu neu i ddod yn arferadwy neu i gael ei thorri, oherwydd unrhyw drosglwyddiad o dan

y Cynllun hwn neu oherwydd unrhyw weithrediad arall o’r Cynllun Trosglwyddo hwn.

(5) Mae’r trosglwyddiadau y darperir ar eu cyfer gan y Cynllun Trosglwyddo hwn i’w gwneud—

(a) ni waeth a oes unrhyw ofyniad ar gyfer cydsyniad a fyddai fel arall yn gymwys (pa un a yw’n codi o dan unrhyw ddeddfiad, offeryn, cytundeb neu fel arall),

(b) pa un a fyddent fel arall yn gallu cael eu trosglwyddo ai peidio, ac

(c) ni waeth a oes unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) a fyddai fel arall yn atal y trosglwyddiadau hynny neu’n cyfyngu arnynt.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
30 Mawrth 2023

# YR ATODLEN Erthyglau 4, 6, 8 a 10

## RHAN 1

Les ddyddiedig 17 Mehefin 2011 a wnaed rhwng Cyngor Sir Powys (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas â'r Swyddfeydd Llawr Cyntaf, Neuadd Brycheiniog

Les ddyddiedig 14 Hydref 2013 a wnaed rhwng Rombourne Limited (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas â Rhan o'r Swyddfeydd Trydydd Llawr, 33-35 Heol y Gadeirlan

Les ddyddiedig 2 Chwefror 2015 a wnaed rhwng Larchfield Bell LLP (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas ag Uned 11 Llys Castan

Les ddyddiedig 5 Mai 2017 a wnaed rhwng JFR Developments Limited (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas ag Unedau 2 a 3 Tŷ Procopy

Les ddyddiedig 11 Ebrill 2019 a wnaed rhwng Venture Wales Limited (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas â'r Swyddfeydd Llawr Daear, a elwir yn G4, G5, G6 a G9 yn Nhŷ Antur

Les ddyddiedig 11 Tachwedd 2019 a wnaed rhwng Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas ag Ystafell 18 Cwrt Cedrwydden

Les ddyddiedig 11 Mawrth 2021 a wnaed rhwng Gladman Commercial Properties (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas ag Ystafelloedd B a D ar y Llawr Cyntaf, Uned 1 Parc Busnes Wilkinson

Les ddyddiedig 29 Mawrth 2021 a wnaed rhwng Business in Focus Ltd (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas ag Uned G11 yn Nhŷ Antur

Les ddyddiedig 7 Mehefin 2022 a wnaed rhwng LMN One Limited ac LMN Two Limited (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas ag Ystafelloedd 21, 22, 23, 24, 31 a 32 yn Nhŷ Rhaglan

Les ddyddiedig 7 Mehefin 2022 a wnaed rhwng Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas â Rhan o'r Swyddfeydd Llawr Cyntaf, Ysbyty Cimla

Les ddyddiedig 9 Chwefror 2023 a wnaed rhwng G A Latham, S P Latham ac R J Berry (1) a Gweinidogion Cymru (2) mewn perthynas â'r Llawr Cyntaf, Tŷ Myrddin

## RHAN 2

Cytundeb dyddiedig 31 Hydref 2022 a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru (1) ac S8080 Limited (2) mewn perthynas â darganfod, datblygu, lletya a chefnogi gwefan Corff Llais y Dinesydd (cyfeirnod y contract FC066/2022/2023)

Cytundeb dyddiedig 9 Ionawr 2023 a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru (1) a Centerprise International Ltd (2) mewn perthynas â gwasanaethau TG a reolir ar gyfer Corff Llais y Dinesydd (cyfeirnod y contract FC065/2022/2023)

Cytundeb dyddiedig 9 Ionawr 2023 a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru (1) a Capgemini UK PLC (2) mewn perthynas â darganfod, gweithredu a chefnogi mynegiad newydd o Dynamics 365 ar gyfer Corff Llais y Dinesydd (cyfeirnod y contract FC067/2022/2023)

## RHAN 3

Cytundeb dyddiedig 13 Chwefror 2023 a wnaed rhwng Gweinidogion Cymru (1) a Working Word (2) mewn perthynas â gwasanaethau marchnata Corff Llais y Dinesydd (cyfeirnod y contract FC071/2022/2023)